# Gweithdrefn Moeseg Ymchwil ar gyfer gwaith a wneir gyda Gweddillion Dynol.

## Cyflwyniad

Wrth astudio a dadansoddi gweddillion dynol, bydd angen ystyriaethau moesegol a gweithdrefnau gweithio penodol. Mae ymrwymiad y Brifysgol i gynnal y safonau gorau o ran moeseg, manwl gywirdeb a gonestrwydd yn ei holl ymchwil wedi'i nodi ym Mholisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i ymchwil a wneir dan nawdd Prifysgol Wrecsam, sy'n cynnwys ymdrin â gweddillion dynol, dadansoddiadau dinistriol neu ddelweddu digidol. Dan Bolisi Moeseg y Brifysgol, mae'n rhaid i unrhyw ymchwil a wneir gan staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam, sy'n cynnwys gweddillion dynol, gael cymeradwyaeth foesegol cyn dechrau arni. Mae'n rhaid cyflwyno'r holl geisiadau ar gyfer cymeradwyo moeseg ymchwil drwy System Moeseg Ymchwil Wrecsam.

## Diffiniad

At ddibenion y weithdrefn hon, diffinnir 'gweddillion dynol' fel unrhyw ysgerbydau dynol cyflawn neu anghyflawn, neu samplau o ddeunyddiau biolegol sydd dros 100 oed a gedwir mewn amgueddfeydd a chasgliadau, neu'r rheiny sy'n ymddangos o ganlyniad i archwiliadau archaeolegol ac archwiliadau eraill. Yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol (2004), nid yw ewinedd na gwallt wedi'u cynnwys yn niffiniad y Brifysgol o weddillion dynol.

Dylid dehongli ymchwil yn eang i gynnwys yr holl archwiliadau sy'n cael eu gwneud dan nawdd y Brifysgol, sy'n cynnig gwybodaeth, dealltwriaeth neu asesiad, boed wedi'i ariannu neu ddim.

## Cwmpas

Mae Polisi'r Brifysgol a'r weithdrefn hon yr un mor berthnasol i brosiectau a wneir gan staff neu fyfyrwyr y Brifysgol, mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys gwaith ar y cyd â sefydliadau trydydd parti.

## Egwyddorion Moesegol yn ymwneud â gweddillion dynol

Mae Prifysgol Wrecsam wedi mabwysiadu'r egwyddorion perthnasol isod yn unol â'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Anthropoleg Fiolegol ac Osteoarchaeoleg Prydain (Cod Moeseg BABAO 2019); yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) (Canllaw ar gyfer Gofalu am Weddillion Dynol mewn amgueddfeydd, DCMS, 2005); a'r Canllawiau ar gyfer Arfer Gorau wrth drin Gweddillion Dynol sydd wedi'u datgladdu o fynwentydd Cristnogol yn Lloegr, 2017.

Wrth weithio ac ymdrin â gweddillion dynol, ac wrth ddatblygu eu hymchwil, dylai ymchwilwyr gydymffurfio â'r egwyddorion sylfaenol isod, a dangos tryloywder, gonestrwydd, uniondeb, sensitifrwydd a dealltwriaeth ddiwylliannol.

### Parch

Waeth beth yw oed y gweddillion sy'n cael eu harchwilio, mae'n rhaid i ymchwilwyr ddangos parch at yr unigolyn y mae’r gweddillion yn perthyn iddo, a thrin y deunydd gyda phwyll ac urddas. Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid i ymchwilwyr barchu credoau ac ymddygiadau crefyddol, ysbrydol a diwylliannol, gan roi ystyriaeth i gefndir diwylliannol a hanesyddol yr unigolion, y grwpiau a'r cymunedau.

### Gwerth

Mae'n rhaid i ymchwilwyr barchu gwerth a phrinder posibl y gweddillion dynol sy'n cael eu harchwilio, a chydnabod gwerth gwyddonol eu hymholiad. Dylai ymchwil, a all gynnwys dinistrio deunydd, werthuso a rhesymu'r gwerth a bydd hyn yn ei ychwanegu i archwiliad gwyddonol yr astudiaeth.

### Didwylledd

Wrth gynnig unrhyw weithgareddau ymchwil gyda gweddillion dynol, a'u rhoi ar waith, dylai ymchwilwyr fod yn agored ynghylch diben ac effaith eu prosiect ymchwil gyda chydweithwyr, y cyhoedd ac unrhyw drydydd parti. Os gwyddys hunaniaeth y sawl sydd wedi marw, mae'n bwysig bod yn agored am hyn, a chysylltu ag unrhyw ddisgynnydd y gwyddys amdano. Er y gallai hyn leihau gydag oedran y gweddillion, ni ddylid diystyru'r egwyddor hon a dylid ystyried disgynyddion achyddol neu gymunedau diwylliannol cysylltiedig cyn a thrwy gydol y gwaith.

### Diogelu a Chadwraeth

Dylai ymchwilwyr ystyried y gwaith o ddiogelu a chadw'r deunyddiau sy'n cael eu harchwilio. Lle bo'n bosibl, ni ddylid dinistrio gweddillion yn eu cyfanrwydd, gan y byddai hyn yn atal astudiaethau dilysu ac astudiaethau dyblyg yn y dyfodol. Dylai'r dadansoddiadau, canfyddiadau ymchwil posibl a'r safle darganfod fod yn agored ac ar gael i'r cyhoedd ac ymchwilwyr eraill lle bo'n bosibl.

## Manylion Cyswllt

Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn hon at y Swyddfa Ymchwil - rescadmin@glyndwr.ac.uk